Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Prion
# Ysgol Pantpastynog
# Prion
# DinbychLL16 4SA

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Prion, sy'n cwrdd mewn caban pwrpasol ar gampws Ysgol Gynradd Pantpastynog ym mhentref gwledig Prion, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r lleoliad yn agor am 11.30 y bore ond yn darparu addysg i blant am ddwy awr y dydd rhwng un a thri o'r gloch y prynhawn am bum diwrnod yr wythnos.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed ac wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 17 plentyn. Tri phlentyn sy'n cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig a daw ychydig dros hanner ohonynt o aelwyd sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith. Ar hyn o bryd, does dim un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r cylch..

Mae'r lleoliad yn cyflogi dau aelod o staff amser llawn. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Mehefin 1990.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Medi 2015 a chan Estyn ym mis Mawrth 2011.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol i'r plant
- ymarferwyr yn ymateb yn dda i anghenion y plant, ac yn adlewyrchu ethos ac egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus
- ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant a dealltwriaeth briodol o egwyddorion y cyfnod sylfaen
- trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant
- cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn dderbyn cyfrifoldeb a datblygu eu medrau annibynnol
- y gymuned yn gynhwysol lle mae pob un yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd
- ganddo ddigon o adnoddau amrywiol o safon uchel a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fodloni egwyddorion y cyfnod sylfaen ac anghenion penodol y plant

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- ei fod yn cael ei redeg yn drefnus gan arweinydd profiadol sydd â gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gynnar effeithiol a chyffrous i blant yr ardal
- bod yr arweinydd yn rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus gyda'r ymarferwr cynorthwyol, y rhieni, ac aelodau'r pwyllgor rheoli
- bod aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i'w waith ac yn sicrhau bod gan y staff a'r plant fynediad da at adnoddau o safon uchel i'w galluogi i gydymffurfio'n llawn ag egwyddorion y cyfnod sylfaen
- bod y broses hunanarfarnu yn effeithiol a bod cyswllt clir rhwng ei deilliannau a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella
- bod ganddo berthynas effeithiol gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chynnydd y plant
- bod yr arweinydd a'r pwyllgor yn rheoli'r staff ac adnoddau eraill yn briodol

## Argymhellion

A1 Gwneud defnydd effeithiol a chyson o ganlyniadau asesiadau dyddiol i gynllunio’r camau nesaf yn nysgu’r plant

A2 Sicrhau bod y meini prawf llwyddiant a nodir yn y cynllun datblygu bob amser yn cyfeirio’n benodol at ddeilliannau plant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol i'r plant, sy'n dal eu sylw ac sydd gan amlaf yn seiliedig ar straeon cyffrous sydd o ddiddordeb iddynt, fel stori am Sali Sws yr octopws. Maent yn ymateb yn dda i anghenion y plant, ac yn adlewyrchu ethos ac egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae hyn yn annog y plant i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu o oed cynnar.

Mae'r cynlluniau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn effeithiol. Mae datblygu medrau plant yn y Gymraeg yn digwydd yn hollol naturiol ac mae'n greiddiol i holl weithgareddau'r lleoliad. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ar draws y meysydd dysgu ac yn annog y plant i ddatblygu eu medrau iaith yn barhaus tra'n ymroi'n gydwybodol i'w tasgau. Mae enghreifftiau da yn cynnwys pysgota yn y pwll dŵr, cyfri a disgrifio'r pysgod y maent wedi eu dal, cymryd archebion yn y caffi, a pharu hosanau o wahanol liw yn dilyn gwrando ar stori 'Sanau Newydd Sali'. O ganlyniad, mae medrau llafar, darllen ac ysgrifennu cynnar y plant, ynghyd â'u medrau rhifedd, yn datblygu'n dda iawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd diddorol i blant ddefnyddio ystod o offer fel y til yn y siop wrth werthu gwrthrychau glan-y-môr, y ffôn yn y caffi i dderbyn archebion bwyd a'r llechen electronig i dynnu lluniau eu cyfoedion wrth eu gweithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn addasu gweithgareddau i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau neu anghenion gwahanol y maent wedi dod ar eu traws tra'n arsylwi ar y plant wrth eu gweithgareddau yn hollol naturiol. Er enghraifft, maent wedi prynu mwy o adnoddau TGCh yn ddiweddar i ddatblygu medrau'r plant yn y maes hwn. Maent yn darparu cyfleoedd da i'r plant werthuso'u gweithgareddau ar ddiwedd y dydd trwy ddewis yr un sydd wedi rhoi'r mwyaf o foddhad iddynt. Mae hyn yn eu hannog i fod yn fyfyrgar ac yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae cyfleoedd cyson i blant ddefnyddio beiciau bach ac offer mawr arall yn yr ardal allanol. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Maent hefyd yn datblygu eu medrau creadigol a datrys problemau yn effeithiol trwy, er enghraifft, roi her iddynt adeiladu cwch pysgota allan o focsys cardfwrdd.

Mae hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn ganolog i holl waith y lleoliad ac mae'n gwneud hynny'n llwyddiannus. Mae hyn

yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn flynyddol, a defnyddio straeon traddodiadol fel sail i rai o'i themâu.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau â mannau diddorol fel y fferm leol, a'r ysbyty, a thrwy wahodd ymwelwyr fel y nyrs i siarad â'r plant am fyw yn iach. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant, yn dod â'u dysgu yn fyw iddynt ac yn codi eu hymwybyddiaeth am bobl sy'n gweithio o fewn eu cymuned.

## Addysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant a dealltwriaeth briodol o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i sicrhau bod pob un yn hapus a diogel ac yn gwneud cynnydd da. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol iawn mewn ffordd hynaws ond cadarnhaol. O ganlyniad, mae'r plant yn ymddwyn yn dda, yn cyfranogi'n gydwybodol ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn herio'r plant yn gyson trwy eu holi'n dreiddgar tra'u bod wrth eu tasgau ffocws a pharhaus. Maent yn eu hannog i siarad yn y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf trwy fodelu'r iaith yn gelfydd iddynt. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant i'w hysgogi a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae cymhelliant y plant yn uchel a'u hawydd i wella'u gwaith yn gyson dda.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol i alluogi'r ymarferwyr i fesur eu cynnydd o'u mannau cychwyn. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi unrhyw gynnydd nodedig a wneir gan y plant yn erbyn gofynion y proffil cyfnod sylfaen yn y llyfrynnau 'Chwarae i ddysgu: Dysgu chwarae'. Er eu bod yn eu hannog i fentro i'r cam nesaf yn barhaus, nid ydynt bob amser yn defnyddio asesiadau yn ddigon ffurfiol i dargedu'r camau penodol nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Mae'r ddeialog reolaidd rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr wrth y glwyd yn atgyfnerthu hyn. Darperir cyfleoedd ffurfiol i rieni drafod cynnydd eu plant gyda'r ymarferwyr yn ystod y flwyddyn, ac ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad maent yn trosglwyddo gwybodaeth benodol amdanynt i'r ysgol gynradd. Mae hyn yn hybu trosglwyddo esmwyth a llwyddiannus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r caban a'r amgylchedd allanol yn fannau diogel i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan fyddant yn mynd adref ar ddiwedd y dydd, ac yn dangos lefel uchel o ofal drostynt yn ystod y sesiynau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo'r egwyddor o fwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu'n gadarnhaol at ffordd iach o fyw. Maent yn siarad yn aeddfed am fwydydd sy'n iach iddynt, yn arbennig am eu hoff ffrwythau. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, a deunyddiau plastig. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau gwerthfawr ac effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau grŵp mawr, fel amser cylch ac amser stori, yn fwriadus er mwyn meithrin y gwerthoedd hyn.  Maent yn annog y plant i gymryd eu tro, i wrando'n astud ar gyfraniadau ei gilydd ac i fyfyrio ar eu hymddygiad yn llwyddiannus.  Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un yn ystyried a pharchu teimladau ei gilydd yn aeddfed iawn.

Mae ymarferwyr yn cymell y plant i gymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt sychu eu dwylo, dosbarthu byrbryd a derbyn diod.  Maent yn rhoi cyfrifoldeb priodol i'r plant osod a chlirio'u llestri yn ystod amser 'snac'.  Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn dderbyn cyfrifoldeb a datblygu eu medrau annibynnol.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd hamddenol i'r plant ar adegau penodol o'r dydd trwy chwarae cerddoriaeth yn dawel, sydd yn ei dro yn eu hannog i ymdawelu yn hollol naturiol.  Maent yn gweddïo'n fyfyrgar cyn mynd adref.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob un yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd.  Mae'r ethos gweithgar a hamddenol sy'n bodoli yno yn adlewyrchu'r pwyslais y mae arweinwyr yn ei rhoi ar gydweithio ac ymroi i weithgareddau.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth gan eu haddysgu yn llwyddiannus am wahanol ddiwylliannau a gwyliau fel y flwyddyn newydd Tsieineaidd.  Mae hyn yn rhoi cyfle priodol i'r plant gymharu bwyd a dillad plant o Tsieina gyda'u rhai nhw.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau amrywiol o safon uchel i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus yn y meysydd dysgu y tu mewn ac yn yr ardal allanol. Defnyddir adnoddau'n effeithiol i fodloni egwyddorion y cyfnod sylfaen ac anghenion penodol y plant.  Fe'u defnyddir yn benodol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws ac amrywiol weithgareddau diddorol i gyfoethogi'r dysgu.  Mae'r adnoddau'n cael eu cadw ar lefel briodol i alluogi'r plant i'w cyrraedd a'u gosod heibio wedi iddynt orffen â nhw.  Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol.

Mae'r caban yn cael ei gynnal a'i gadw'n lân a diogel.  Mae'r ardal allanol yn ddiogel ac yn cynnwys ardaloedd fel yr ardd, twba tywod, siop glan-y-môr ac ardaloedd priodol i farcio a chwarae rôl.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn greadigol i annog annibyniaeth a chreadigedd y plant yn eu dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn drefnus gan arweinydd profiadol sydd â gweledigaeth glir i ddarparu addysg gynnar effeithiol a chyffrous i blant yr ardal. Mae'n canolbwyntio'n glir ar sicrhau bod y plant yn hapus, yn ddiogel, ac yn gwneud cynnydd priodol.  Mae'r arweinydd yn rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus gyda'r ymarferwr cynorthwyol, y rhieni, ac aelodau'r pwyllgor rheoli.  Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'r ymarferwr cynorthwyol ac maent yn rhannu gwybodaeth am weithdrefnau dyddiol a chynnydd plant yn llwyddiannus ymhlith ei gilydd.  Mae rolau'r ymarferwyr yn glir ac wedi eu cofnodi mewn disgrifiadau swyddi priodol.  Mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud, yn

hybu cydweithio effeithiol, ac yn cyfrannu'n dda at eu gallu i sicrhau bod y plant yn ymdrechu'n ddyfal yn eu gweithgareddau ac yn gwneud cynnydd da.

Mae gweithdrefn briodol yn bodoli i reoli perfformiad y staff yn flynyddol a darperir hyfforddiant penodol iddynt yn dilyn y cyfarfod gwerthuso, sy'n cysylltu'n dda â'u hanghenion proffesiynol ym maes y blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant diweddar ar ddatblygu addysg yn yr ardal allanol, maent wedi ehangu'r ddarpariaeth yn effeithiol i alluogi'r plant i ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus mewn amrywiol feysydd y tu allan i'r caban.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i waith y lleoliad ac yn sicrhau bod gan y staff a'r plant fynediad da at adnoddau o safon uchel i'w galluogi i gydymffurfio'n llawn ag egwyddorion y cyfnod sylfaen. Trwy ymweld yn rheolaidd, maent yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn gwerthfawrogi'r ystod o weithgareddau diddorol y mae'r plant yn eu cyflawni yno.

### Gwella ansawdd: Da

Mae'r broses hunanarfarnu yn effeithiol ac yn seiliedig ar arsylwi ac arfarnu ansawdd gwaith y lleoliad yn gyson mewn perthynas ag addysgu. Mae swyddogion y pwyllgor rheoli, ynghyd â'r athrawes arbenigol, yn cyfrannu at y gweithgareddau hyn. Mae'r adroddiad cyfredol, sy'n gofnod priodol o ddeilliannau'r weithdrefn hon, yn cydnabod mai cyfyng yw'r cyswllt sy'n bodoli rhwng yr asesu a'r cynllunio.

Mae'r ymarferwyr yn gyfrifol am asesu effaith eu gwaith eu hunain a'u cydweithwyr ar gynnydd y plant yn rheolaidd. Mae hyn yn hybu cydweithio agored ac ymdeimlad clir o waith tîm a gwelliant parhaus. Caiff yr ymarferwr cynorthwyol ei monitro'n gyson gan yr arweinydd, a'r arweinydd gan un o swyddogion y pwyllgor rheoli. Mae deilliannau'r weithdrefn yn cyfrannu'n briodol at gynnwys yr adroddiad hunanarfarnu ac yn arwain yn naturiol at wella'r ddarpariaeth, y safonau a lles y plant.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cynllun gwella yn nodi nifer synhwyrol o bethau sydd angen eu gwella, sut maen nhw'n mynd ati i'w gwella, pwy sy'n gyfrifol, erbyn pryd, a meini prawf llwyddiant. Nodir sylwadau monitro yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ddatblygiad yn erbyn y materion hyn. Fodd bynnag, mae nifer o'r meini prawf llwyddiant yn cyfeirio'n ormodol at y ddarpariaeth yn hytrach na'i heffaith ar ddeilliannau'r plant.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y lleoliad berthynas effeithiol gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chynnydd y plant.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn gryf. Mae staff bob amser yn cyfarch y rhieni wrth y glwyd ac yn barod i drafod materion perthnasol gyda rhieni yn y man a'r lle, os yw'n briodol. Cynhelir nosweithiau agored a defnyddiol iddynt yn rheolaidd i'w galluogi i drafod datblygiad eu plentyn yn fwy ffurfiol, ynghyd ag unrhyw bryderon neu faterion maent am eu codi gyda'r staff. Cynhelir hefyd brynhawn agored iddynt weld gwaith eu plant. Defnyddir cylchlythyron yn rheolaidd fel cyfrwng i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau ac i rannu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall fel y straeon fydd yn cael eu cyflwyno i'r plant yn ystod bob hanner tymor. Mae rhieni'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref gyda'r ysgol gynradd y mae'n ffodus i gael ei leoli ar ei champws. Mae hyn yn ei galluogi i rannu adnoddau, sy'n cynnwys y caban, y neuadd, mannau chwarae a'r ardal allanol. Mae'r plant yn gyfarwydd â mynychu'r ysgol gynradd ac mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r staff, gan fynychu sesiynau hyfforddiant a threfnu bod y plant yn cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau ar y cyd â disgyblion yr ysgol. Mae'r cyswllt cadarn a buddiol hwn yn hwyluso'r broses drosglwyddo ac yn sicrhau bod y plant, yn eu tro, yn hapus wrth gychwyn yn yr ysgol gynradd.

Mae gan ymarferwyr bartneriaeth fuddiol â chylchoedd meithrin eraill, sy'n eu galluogi i rannu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Mae partneriaeth gadarn â'r gymuned leol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae'r plant wedi ymweld â fferm leol i ddysgu am anifeiliaid. Mae'r disgo a groto Siôn Corn a nosweithiau cymdeithasol a drefnir gan yr ymarferwyr a rhieni'r lleoliad yn ddigwyddiadau cymunedol poblogaidd sy'n codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol i'r lleoliad ac yn meithrin perthynas gadarnhaol â'r gymuned leol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn rheoli'r staff ac adnoddau eraill yn briodol. Cefnogir y lleoliad yn effeithiol gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, sydd hefyd yn gweithio yn yr ysgol leol, a swyddog y Mudiad Meithrin, ymysg eraill. Maent yn eu tro, er enghraifft, yn cynnig syniadau buddiol i ymarferwyr ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant mewn amrywiol weithgareddau ac yn eu cynghori ar ddatblygiadau newydd ym maes y blynyddoedd cynnar. Gwneir defnydd priodol o grantiau amrywiol i gyfoethogi ystod yr adnoddau ac i gefnogi hyfforddiant i ymarferwyr mewn meysydd priodol fel datblygu rhifedd a llythrennedd y plant.

Mae'r lleoliad yn elwa'n fawr ar dderbyn amrywiol grantiau, sy'n ddefnyddiol iddynt weithredu'n llwyddiannus o ddydd i ddydd. Rheolir y cyllid yn effeithiol gan swyddogion y pwyllgor rheoli. O ganlyniad i effaith gadarn y ddarpariaeth ar y safonau y mae plant yn eu cyflawni, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |